

Dyddiad cyhoeddi: 31 Mawrth 2021

Enw'r Ceisydd: #####

Cyfeiriad y Ceisydd: ####@#####.###

Adolygiad Mewnol Rhyddid Gwybodaeth – Cadarnhau'r Penderfyniad Gwreiddiol

Annwyl #####,

Rydw i'n ysgrifennu atoch chi mewn ymateb i'ch cais am adolygiad mewnol o'n hymateb gwreiddiol i'ch cais Rhyddid Gwybodaeth am holl recordiadau a chyhoeddiadau Trafnidiaeth Cymru (TrC) (ein cyfeirnod: Rhyddid Gwybodaeth 2021-200 Cyhoeddiadau).

Roedd eich cais gwreiddiol dyddiedig 4 Mawrth 2021 fel a ganlyn:

“Rydw i'n ysgrifennu atoch chi i ofyn am gopi o holl gyhoeddiadau a recordiadau Trafnidiaeth Cymru y gallwch eu darparu. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddiadau trenau a chyhoeddiadau gorsafoedd, ond nid yw wedi'i gyfyngu i hynny. Rydw i wedi gwneud yr un cais i LNER, a fu'n llwyddiannus, felly ni welaf unrhyw reswm pam na ddylai'r cais hwn fod yn llwyddiannus hefyd. Pe gallech chi ddarparu'r wybodaeth hon, buaswn i'n gwerthfawrogi hynny'n fawr. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu ymholiadau pellach, mae croeso i chi gysylltu â mi yn y cyfeiriad hwn.”

Cyhoeddwyd ein hymateb i'ch cais ar 4 Mawrth 2021, ac yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, fe wnaethoch ofyn am adolygiad mewnol o'r ymateb hwnnw fel a ganlyn:

“Rydw i'n gofyn am adolygiad o'r cais Rhyddid Gwybodaeth hwn. Roedd LINER, awdurdod cyhoeddus arall sy'n gyfrifol am drenau a gorsafoedd, yn gallu darparu'r holl gyhoeddiadau oedd ganddyn nhw ar gael. Os nad ydyn nhw'n credu bod risg, yna dydw i ddim yn gweld pam nad ydych chi'n gallu darparu'r deunyddiau y gofynnwyd amdany'n nhw.”

Rydw i'n aelod uwch o staff na'r sawl wnaeth y penderfyniad gwreiddiol yn yr achos hwn, ac o'r herwydd, rydw i wedi adolygu'r ymateb. Rydw i wedi penderfynu cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol am resymau y byddaf yn eu hamlinellu nawr.

Mae'r risg i iechyd a diogelwch ein teithwyr, fel yr amlinellwyd yn ein hymateb gwreiddiol, yn un go iawn. Rydw i'n fodlon bod y risg yn bodloni'r diffiniad a amlinellir yn Adran 38 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, lle mae perygl i iechyd meddyliol a chorfforol, yn ogystal â diogelwch unrhyw unigolyn, yn cael eu hystyried. Rydw i hefyd yn fodlon bod cysylltiad achosol clir rhwng peryglu iechyd a diogelwch a datgelu'r wybodaeth hon. Mae rhagor o wybodaeth am yr eithriad hwn ar gael [yma](#). Petai'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio mewn ffordd

flinderus, fel sy'n cael ei ddangos gan yr enghraifft yn ein hymateb gwreiddiol, byddai hyn yn sicr yn achosi trallod sylweddol a gallai hyd yn oed annog teithwyr i beryglu eu diogelwch mewn ffordd sydd ddim yn ddibwys.

Yn ogystal â'r eithriad o dan Adran 38 a nodwyd yn ein hymateb gwreiddiol, byddai'r gost o adalw'r wybodaeth hon hefyd yn fwy na'r uchafswm priodol ar gyfer prosesu cais fel y nodir yn Adran 12 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae rhagor o wybodaeth am yr eithriad hwn ar gael [yma](#).

Mae adran 12 yn caniatáu i awdurdod cyhoeddus wrthod cais a fyddai'n costio mwy na £600 i'w brosesu, ar y sail ei fod yn cymryd 24 awr o amser staff ar y gyfradd safonol o £25 yr awr. Gall cyfrifo'r gost hon gynnwys:

- a. Penderfynu a oes gennym ni'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ;
- b. Dod o hyd i'r wybodaeth a chael gafael arni;
- c. Echdynnu'r wybodaeth.

Does dim gofyniad swyddogol i awdurdodau cyhoeddus gynnwys dadansoddiad o'r amcangyfrif o'r costau, dim ond amcangyfrif p'un ai a fyddai'n uwch na'r uchafswm. Mae ein hamcangyfrif yn cynnwys y gost o gael y recordiadau Cymraeg a Saesneg ar gyfer pob gorsaf ar hyd a lled Cymru, ac yna darparu mecanwaith i drosglwyddo'r recordiadau. Yng nghanol pandemig, byddai cael gafael ar yr wybodaeth hon yn ailgyfeirio adnoddau arbenigol cyfyngedig a sylw staff oddi wrth eu swyddogaethau craidd, a allai fod yn cefnogi gweithgareddau hanfodol eraill yn ystod y cyfnod eithriadol hwn.

Mae goblygiadau hawlfraint hefyd i'w hystyried, gan fod breindaliadau ynghlwm wrth y recordiadau a ddarparwyd gan yr artistiaid llais, ar gyfer y recordiadau Cymraeg yn benodol. Cytunwyd ar hawl unigryw adeg caffael yn 2019 rhwng Gwasanaethau Rheilffyrdd TrC Cyfyngedig (Gwasanaethau Rheilffyrdd TrC gynt) ac fe wnaeth y cyflenwr gyfyngu ar y defnydd o'r cyhoeddiadau Cymraeg i Rheilffyrdd TrC Cyfyngedig yn unig. Er mwyn rhyddhau'r recordiadau, mae'n debygol y byddai angen i TrC negodi â'r cyflenwr gwreiddiol. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r defnydd o eithriadau adran 12 a 38, nid ydym ni wedi gofyn i'r cyflenwr ymchwilio i hyn.

Fel awdurdod cyhoeddus, mae TrC yn cydnabod bod angen bod yn agored ac yn dryloyw, yn ogystal â faint o ddiddordeb sydd gan y cyhoedd yng nghyswllt cyhoeddiadau TrC. Eto i gyd, fel mae'r adolygiad hwn yn ei ddangos, mae ymateb i gais o'r fath yn amlochrog a chymhleth. Er fy mod yn nodi eich bod chi wedi gwneud cais tebyg i LENER a oedd yn llwyddiannus, mae modd dod o hyd i lawer o enghreifftiau o geisiadau tebyg aflwyddiannus ar wefan 'whatdotheyknow', yn enwedig yn ystod y pandemig.

Mae TrC yn ceisio bod yn ddefnyddiol wrth wrthod cais a wneir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth drwy gynnig awgrymiadau ar gyfer ffyrdd o fireinio neu ailgyfeirio cais. Fodd

bynag, fel unig berchennog yr wybodaeth dan sylw ac yng ngoleuni ein defnydd o eithriad Adran 38, ni allwn ni gynnig awgrym arall yn yr achos hwn.

Gobeithio bod y llythyr hwn wedi rhoi eglurhad digonol i chi o'r rhesymau pam y gwrthodwyd eich cais Rhyddid Gwybodaeth. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol hwn, mae eich hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi'i amlinellu isod.

Yn gywir,

Heather Clash
Cyfarwyddwr Cyllid

Trafnidiaeth Cymru

Hawliau Apelio

Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol hwn, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>